## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

### Ymgynghoriad ar y cynigion

Dechreuwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn am 12 wythnos ym mis Gorffennaf 2020 ar ein cynigion i wahardd naw math o gynnyrch plastig untro a chynhyrchion plastig ocso-bioddiraddiadwy. Cafwyd dros 3,500 o ymatebion ac roeddent yn cynnwys safbwyntiau gan grwpiau nodweddion gwarchodedig, elusennau amgylcheddol, cynrychiolwyr gweithgynhyrchu a manwerthu a sefydliadau rheoli gwastraff. Cafwyd ymatebion hefyd gan ymgyrchoedd wedi'u trefnu, gan gynnwys Dŵr Cymru.

Ar ôl cau'r ymgynghoriad cychwynnol ym mis Hydref 2020, cafodd rhagor o waith ymgysylltu wedi'i dargedu a chasglu tystiolaeth ei wneud yn gynnar yn 2022. Roedd y trafodaethau hyn yn ymwneud â chynigion cychwynnol 2020 ac yn gofyn am safbwyntiau ar bosibilrwydd ehangu ein cynigion i gynnwys o bosibl weips, bagiau siopa plastig, a chaeadau cwpanau a chynwysyddion bwyd tecawê polystyren. Er mwyn deall effeithiau posibl hyn, cysylltwyd â'r canlynol:

- Pobl anabl a'u grwpiau cynrychioliadol,
- Plant a phobl ifanc, gan gynnwys mudiadau cynrychioliadol, megis grŵp diddordeb arbennig newid yn yr hinsawdd Cymru Ifanc
- Sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol,
- Cynrychiolwyr o'r sector addysg,
- Cynrychiolydd o'r sector iechyd (sylfaenol ac eilaidd),
- Cynrychiolwyr o'r sector amaethyddiaeth
- Sefydliadau gweithgynhyrchu
- Cynrychiolwyr ac aelodau o sefydliadau manwerthu

Wrth ddatblygu Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), rydym wedi ystyried yr adborth a ddarparwyd ynghylch cefnogi anghenion grwpiau nodweddion gwarchodedig. Ar ben hynny, rydym wedi hwyluso trafodaethau ychwanegol gyda'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, amrywiaeth o grwpiau nodweddion gwarchodedig, plant a phobl ifanc, gan gynnwys sefydliadau cynrychioliadol, a Grŵp Diddordeb Arbennig Newid yn yr Hinsawdd i bobl ifanc er mwyn sicrhau ein bod wedi llawn ddeall gofynion unigol ac adborth i'r ymgynghoriad.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol – cadarnhaol a negyddol?

<u>**Effeithiau Cadarnhaol**</u>

Mae gwastraff plastig a'i effaith ar ein hamgylchedd yn cael sylw'n rheolaidd yn y cyfryngau ac ar-lein ac mae'n cael ei godi'n aml gyda Gweinidogion Cymru. Mae plastig untro yn rhan fawr o'r sbwriel sydd ar ein strydoedd, yn ein parciau ac yn ein moroedd. Mae'n difetha ein cymunedau ac yn cael effaith ddinistriol ar ein bywyd gwyllt. Mae ein hymgynghoriad a'n gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu wedi dangos bod cefnogaeth gref i weithredu yn y maes hwn. Fe wnaethom nodi nifer o fanteision cadarnhaol posibl:

- ***Cymru gydnerth***: Drwy leihau faint o wastraff plastig diangen sy'n cael ei gynhyrchu a'i waredu'n amhriodol. Bydd yn caniatáu inni adeiladu ar ein henw da byd-eang am ailgylchu a chyfrannu at ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur.

- ***Cymru lewyrchus***: Drwy gefnogi busnesau a mentrau yng Nghymru i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, datblygu atebion arloesol i gynhyrchion plastig untro a manteisio ar y cyfleoedd economaidd sy'n deillio o symud at economi fwy cylchol.

- ***Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus***: Drwy sicrhau bod pob rhan o gymdeithas yn gallu mwynhau amgylchedd glân a diogel, heb unrhyw sbwriel plastig.

- ***Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang*** – Drwy leihau ein dibyniaeth ar gynhyrchion plastig untro a'r angen i'w gwaredu, rydym yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros yr hyn mae ein poblogaeth yn ei ddefnyddio ac yn sicrhau ein bod yn defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r Byd.

- ***Cymru iachach*** – Drwy leihau effaith negyddol taflu sbwriel, llygredd plastig a newid hinsawdd ar ein hamgylchedd a'n hiechyd a'n llesiant, byddwn yn darparu'r gofynion iechyd mwyaf sylfaenol: aer glân a dŵr diogel. Drwy wella ansawdd y mannau gwyrdd a glas sydd ar gael i bobl eu mwynhau, bydd yn helpu i wella lles meddyliol a chorfforol pobl (drwy ymarfer corff/gweithgaredd corfforol).

**<u>Effeithiau Negyddol</u>**

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu yn cefnogi'r wybodaeth a gafwyd yn yr ymgynghoriad cychwynnol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod eitemau eraill addas heb fod yn rhai plastig eisoes ar gael ar y farchnad ar gyfer y rhan fwyaf o'r eitemau y cynigir eu gwahardd, fel ffyn cotwm papur neu gardfwrdd, cyllyll a ffyrc a throellwyr diodydd pren.

O ran bagiau siopa plastig untro, mae'r gwaharddiad arfaethedig yn berthnasol i'r bagiau siopa teneuach 49 micron neu lai, sy'n bodloni'r diffiniadau o ran maint ac nad ydynt wedi'u heithrio ar sail bwyd neu iechyd a diogelwch. Ni fydd hyn yn cynnwys y bagiau plastig untro sy'n fwy trwchus na'r rheini mae archfarchnadoedd

yn eu disgrifio ar hyn o bryd fel “bagiau am oes”. Ni fydd ychwaith yn cynnwys bagiau plastig fel sachau clytiau na bagiau baw cŵn.

Gwellt

- Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai gwahardd gwellt plastig untro (gan gynnwys gwellt sy’n sownd i garton diod) yn golygu y byddai’r rhan fwyaf o unigolion yn newid i ddefnyddio mathau eraill o wellt fel rhai metel, papur, gwydr neu ddeunyddiau eraill. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn broblematig i rai pobl anabl oherwydd yn aml mae’n rhaid iddynt gael gwellt yfed plastig hyblyg er mwyn iddynt allu bwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol. Er enghraifft, gallai gwellt anhyblyg achosi anaf i rai unigolion sydd â namau sy’n achosi cryndod neu sbasmau a gall fod yn anodd glanhau gwellt aml-ddefnydd.

Roedd grwpiau a oedd yn cynrychioli pobl anabl yn teimlo y gallai gwahardd gwellt plastig hefyd yn creu baich gofalu ac ariannol ychwanegol ar y rheini sy’n gofalu am bobl o bob oed. Nodwyd bod rhai gwellt y gellir eu hailddefnyddio yn ddrutach na’r fersiynau plastig untro. Daw hyn ar ben y costau uchel presennol i bobl anabl. Roedd adroddiad Llesiant Cymru 2021 yn darparu data sy’n dangos bod unigolion sydd â salwch neu nam hirdymor eisoes o bosibl o dan anfantais gymdeithasol ac ariannol. Er enghraifft, roedd ymchwil a gynhaliwyd gan Scope yn nodi bod person anabl yn wynebu costau misol ychwanegol o £583 ar gyfartaledd a bod teuluoedd gyda phlant anabl yn wynebu costau misol ychwanegol o £581. Mae bron i chwarter (24%) y teuluoedd sydd â phlant anabl yn wynebu costau ychwanegol dros £1,000 y mis.

Hefyd, dywed nifer o ofalwyr di-dal bod gofalu’n arwain at effaith negyddol a pharhaol yn aml ar eu hiechyd corfforol a meddyliol nhw eu hunain. Fodd bynnag, yn yr un modd â gweddill y boblogaeth, mae llawer o bobl sydd â namau neu gyflyrau hirdymor hefyd yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu dros eraill hefyd.

### *8.3* Ac ystyried yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig: yn osgoi, yn lleihau neu’n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol bosibl yn sgil ein cynnig i wahardd gwellt plastig untro, rydym wedi cynnwys eithriadau i sicrhau eu bod ar gael i unigolion sydd eu hangen i fwyta ac yfed yn ddiogel neu’n annibynnol. Pan ddaw’r gwaharddiad i rym, bydd gwellt plastig untro ar gael i’w prynu mewn fferyllfeydd, byddant yn cael eu darparu ar gais (er enghraifft mewn lleoliadau lletygarwch neu arlwyo) neu byddant yn cael eu rhoi am resymau meddygol fel a ganlyn:

- **Fferyllfeydd** (gan gynnwys ar-lein) - bydd fferyllfeydd yn cael prynu gwellt plastig untro gan weithgynhyrchwyr neu gyfanwerthwyr fel bod unigolion

sydd eu hangen, neu rywun ar eu rhan, yn gallu eu prynu i'w defnyddio gartref neu yn rhywle arall.

- **Lleoliadau sy'n darparu bwyd neu ddiod** - byddant yn dal i allu prynu gwellt plastig untro gan weithgynhyrchwyr neu gyfanwerthwyr er mwyn eu rhoi i rywun y gallai fod eu hangen arnynt i fwyta ac yfed yn annibynnol, neu rywun sy'n gofyn am welltyn ar eu rhan. Mae'n bwysig nodi nad oes angen i gwsmeriaid ddangos prawf o'r angen wrth ofyn am wellt.
- **Dibenion meddygol -** gall gweithwyr iechyd proffesiynol brynu gwellt plastig untro i'w rhoi pan fydd angen, mae hyn yn cynnwys i'w defnyddio mewn ysbytai neu leoliadau meddygol eraill.

Mae gwneud hyn yn cyd-fynd â rhannau eraill o'r DU, mae'r eithriad yn rhoi eglurder i unigolion ar sut i gael gafael ar wellt plastig untro ble bynnag y byddan nhw. Mae hefyd yn rhoi eglurder a chysondeb i fusnesau.

Ni fydd angen i gwsmeriaid sydd angen gwellt plastig untro neu becyn o wellt, nac unrhyw un a fydd yn gofyn am wellt ar eu rhan, ddangos prawf o'r angen hwnnw.

Er y bydd yn rhaid i fusnesau beidio â chynnig gwellt i gwsmeriaid, gadael iddyn nhw helpu eu hunain i wellt na'u harddangos, dylent barhau i ddilyn y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 - mae addasiadau rhesymol yn newidiadau mae'n rhaid i fusnesau eu gwneud i drin pobl anabl yn deg a rhoi'r un dewisiadau a chyfleoedd iddyn nhw.

Er y bydd eithriadau ar gyfer gwellt yn sicrhau eu bod yn dal ar gael ar gais i'r unigolion hynny sydd eu hangen, gallai newid y ffordd o gael gafael arnynt effeithio ar bobl anabl mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Colli annibyniaeth oherwydd bod llai o wellt ar gael wrth i amgylcheddau lletygarwch ddod yn llai cynhwysol a hygyrch i unigolion sydd angen gwellt.
- Stigmateiddio a meddygoleiddio dianghenraid sydd ynghlwm wrth y llwybrau posibl at gael gafael ar wellt o dan eithriad.

Mae'r adborth gan bobl anabl a grwpiau cynrychioliadol yn pwysleisio bod yr amgylchedd yn bwysig iddynt a bod arnynt eisiau chwarae eu rhan. Nid ydynt eisiau dioddef gwahaniaethu nac agweddau negyddol am barhau i ddefnyddio eitemau y maent yn dibynnu arnynt i ofalu amdanynt eu hunain neu i gadw'n ddiogel.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda busnesau, manwerthwyr, y rheini sy'n gorfodi'r gwaharddiadau, a grwpiau sy'n cynrychioli'r rheini â nodweddion gwarchodedig i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr i gefnogi'r gwaith o weithredu'r gwaharddiadau. Y bwriad yw darparu gwybodaeth, a gyhoeddir mewn nifer o fformatau, a fydd yn sicrhau eglurder i swyddogion gorfodi, cyflenwyr, manwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Bydd y gwaith o gyflwyno'r gwaharddiadau hyn a chyhoeddi canllawiau yn cael ei gefnogi ymhellach drwy godi ymwybyddiaeth i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r angen i rai cynhyrchion barhau i fod ar gael i unigolion sy'n dibynnu arnynt. Bydd hefyd yn egluro sut rydym yn disgwyl i'r cynhyrchion hyn fod yn hygyrch ac yn rhoi canllawiau penodol i fanwerthwyr ar hyn.

### 8.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?

Amcan ein polisi yw lleihau'r defnydd o gynnyrch plastig untro sy'n aml yn ddi-angen ac yn cael ei daflu fel sbwriel. Bydd hefyd yn atal effaith negyddol llygredd plastig ar ein hamgylchedd, ein bywyd gwyllt, ein hiechyd a'n lles ac er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a byd natur.

Bydd ein negeseuon cyfathrebu a'n canllawiau'n cael eu datblygu ar gyfer sefydliadau perthnasol ac ar y cyd â nhw er mwyn darparu gwybodaeth am gynhyrchion sy'n cael eu gwahardd neu eu cyfyngu, am unrhyw eithriadau ac am yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r newidiadau hyn yn raddol.

Wrth gefn y canllawiau bydd ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r angen i rai cynhyrchion barhau i fod ar gael i unigolion sy'n dibynnu arnynt. Bydd hefyd yn egluro sut rydym yn disgwyl i'r cynhyrchion hyn fod yn hygyrch ac yn rhoi canllawiau penodol i fanwerthwyr ar hyn.

Cynhelir adolygiad ôl-weithredu ddim hwyrach na phum mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Bydd yr adolygiad yn asesu effeithiolrwydd yr amcanion polisi, gan gynnwys mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, lleihau sbwriel o blastig untro, a newid ymddygiad i ddewisiadau amgen mwy cynaliadwy. Rydym yn rhagweld y byddai hyn yn cynnwys:

- Canfod a gwerthuso'r effaith y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chael ar ddefnydd cynnyrch plastig untro ac ar ymddygiad cysylltiedig defnyddwyr yng Nghymru.
- Canfod a gwerthuso'r effeithiau y mae'r ddeddfwriaeth wedi'u cael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.
- Canfod a gwerthuso pa effeithiau y mae'r ddeddfwriaeth wedi'u cael ar fusnesau yng Nghymru.
- Canfod a gwerthuso i ba raddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi llwyddo i annog newid i gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio.
- Lle bo'n bosibl, canfod a gwerthuso i ba raddau y mae sbwriel plastig untro wedi lleihau ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.